Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# Hysybysiad hwylus

## Diwygio'r PAC ar ôl 2013

Chwefror 2010

## 1. Beth yw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin?

System o gymorthdaliadau a rhaglenni amaethyddol a datblygu gwledig yr Undeb Ewropeaidd yw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Rhennir cyllid y Polisi'n ddwy Golofn. Mae **Colofn Un,** a elwir hefyd yn **Gynllun Taliad Sengl**, yn cynnig cymorth incwm i ffermwyr sy'n gorfod cadw'u tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da. Mae **Colofn Dau,** a elwir hefyd yn **Golofn Datblygu Gwledig**, yn cynnig cymorth i ffermwyr a rheolwyr tir gyflenwi nwyddau a chymorth i'r economi wledig ac i gymunedau gwledig.

Ar hyn o bryd **€55 biliwn** yw **cyllideb flynyddol** y PAC, sef 40 y cant o holl Gyllideb yr UE.[1] Yn ôl y Comisiwn Ewropeaidd, mae hyn yn gyfystyr â phob dinesydd yn yr Undeb Ewropeaidd yn cyfrannu €2 yr wythnos i ariannu'r PAC.[2] Fodd bynnag, mae cyfran y PAC o'r holl gyllideb wedi gostwng yn sylweddol ers ei greu yn y 1960au: bryd hynny, roedd yn cynrychioli dwy ran o dair o gyllideb yr UE. Ers y 1980au, mae cyfran y PAC o wariant cyhoeddus yr UE wedi gostwng yn sylweddol.

Mae Cymru'n derbyn tua **€330 miliwn yn flynyddol o dan Colofn Un**[3] ac mae wedi cael **€376.7 miliwn ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig**[4] o dan Golofn Dau ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2013. I'r mwyafrif o ffermwyr Cymru, mae'r PAC yn parhau i gynrychioli'r elfen fwyaf proffidiol mewn fferm.[5]

## 2. Beth yw hanes diwygio PAC?

Pan gafodd PAC ei sefydlu yn wreiddiol ar ddechrau'r **1960au,** nod y polisi oedd annog ffermwyr i gynhyrchu mwy trwy gynnig cymorthdaliadau iddynt a gosod systemau ar waith a fyddai'n **sicrhau pris uchel i ffermwyr** am eu cynnyrch. Fodd bynnag, erbyn y **1980au,** roedd hyn wedi arwain at lawer o gynnyrch dros ben ac at alwadau am ddiwygio'r polisi. O ganlyniad i hyn, cafwyd amryw o fân newidiadau i'r polisi yn y 1990au, gan arwain at

[1] Y Comisiwn Ewropeaidd '*The Common Agricultural Policy Explained'* Gwefan [fel ar 3 Chwefror 2010]
[2] ibid.
[3] Ffigur wedi ei seilio ar amcangyfrif Llywodraeth Cymru o gyfanswm y Taliadau Sengl blynyddol yng Nghymru (tua £292 miliwn) ar gyfradd gyfnewid o €1.14 i'r bunt ar 11 Chwefror 2010.
[4] Datganiad i'r wasg gan y Comisiwn Ewropeaidd, *Rural Development Plan for Wales*, 20 Chwefror 2008 [fel ar 11 Chwefror 2010]
[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: creu dyfodol cadarn Atodiad 1: Heriau'r Diwydiant,* mis Mai 2009 [fel ar 10 Chwefror 2010]

gyflwyno **Agenda Ddiwygio 2000** ym 1999. Arweiniodd hyn at y **prif ddiwygiad** mwyaf diweddar a gafwyd, a hynny yn **2003**.

Prif elfen diwygiad 2003 oedd cael gwared ar nifer o gynlluniau cymorthdaliadau incwm a chynhyrchu, a chyflwyno'r **Cynllun Taliad Sengl** yn eu lle. Golygodd hyn nad oedd taliadau i ffermwyr o dan Golofn Un bellach yn gysylltiedig â chynhyrchu nac â nifer yr anifeiliaid ar y fferm. Yn hytrach, rhoddir math o gymorth incwm sylfaenol i ffermwyr sy'n cynnal y tir yn unol â **gofynion amaethyddol ac amgylcheddol.**

Yn 2008, penderfynodd y Comisiwn gynnal archwiliad iechyd o ddiwygiadau 2003 er mwyn asesu eu llwyddiant ac a oedd angen rhagor o ddiwygio. Gwnaed rhai newidiadau pellach i'r cynllun, er nad oeddynt yn ddiwygiadau sylfaenol. Dyma rai o'r prif newidiadau a gyflwynwyd:

- Symud o'r model hanesyddol o gyfrifo taliadau o dan y Cynllun Taliad Sengl i **daliadau ar sail ardal**;
- **Newidiadau i'r safonau amaethyddol ac amgylcheddol da** y mae'n rhaid i ffermwyr eu cyrraedd er mwyn bod yn gymwys ar gyfer taliadau o dan y Cynllun Taliad Sengl;
- **Gosod uchafswm ac isafswm** o ran y cymorth y gall ffermwyr ei gael o dan y Cynllun Taliad Sengl;
- **Cynnydd yn y swm o arian ar gyfer Cynlluniau Datblygu Gwledig Colofn Dau** drwy gynyddu cyfraddau 'modiwleiddio gorfodol', sef ffordd o symud arian o Golofn Un i Golofn Dau;
- Sefydlu **'agenda heriau' newydd** sy'n canolbwyntio ar faterion fel newid hinsawdd, a diogelu pridd a dŵr yn rhaglenni Colofn Dau.

## 3. Diwygio'r PAC ar ôl 2013: beth yw'r prif faterion?

Disgwylir y bydd y diwygiadau i'r PAC ar ôl 2013 yn arwain at **newidiadau mwy sylfaenol i bolisi** na newidiadau 2008. Bydd y trafodaethau ar Adolygu Cyllideb yr UE yn dylanwadu ar y trafodaethau ynghylch y diwygio ac yn pennu cyllideb y PAC am y cyfnod rhwng 2013 a 2020. Yn wahanol i ddiwygiadau'r gorffennol, bydd rhaid i'r Cyngor a'r Senedd gytuno ar y cyd ar unrhyw gynigion deddfwriaethol i ddiwygio (gweler cwestiwn 7).

Dyma'r prif bwyntiau sy'n debygol o fod yn sail i'r trafodaethau ar y cynigion i ddiwygio:

- **Cydgyfeirio rhwng 'hen' aelod-wladwriaethau a rhai 'newydd'**: mae'n debyg y bydd dadl ynghylch y ffordd y dosbarthir arian rhwng aelod-wladwriaethau ar hyn o bryd. Mae aelod-wladwriaethau newydd yn benodol wedi bod yn galw am gyflwyno dull mwy unffurf o ran y Taliad Sengl ar draws yr holl aelod-wladwriaethau.
- **Cynnal cymorth incwm uniongyrchol**: mae dadl ynghylch i ba raddau y dylai ffermwyr barhau i gael cymorth incwm uniongyrchol o dan Golofn Un wrth i rai ddadlau y dylid cysylltu cyllid â chyflenwi nwyddau cyhoeddus ac y dylid cynnig rhagor o arian o dan Golofn Dau.
- **Diweddaru amcanion y PAC**: awgrymodd yr 'agenda heriau' sy'n canolbwyntio ar

faterion fel newid hinsawdd, ynni adnewyddadwy, a diogelu pridd a dŵr, y bydd trafodaethau ar ddiwygio'n cynnwys datblygu amcanion newydd ar gyfer y PAC. Mae'r modd y dylai'r PAC fynd i'r afael â materion fel diogelu'r cyflenwad bwyd a diogelwch bwyd yng nghyd-destun newid hinsawdd hefyd yn debygol o arwain at ddadlau brwd.

- **Globaleiddio a natur gyfnewidiol y farchnad fwyd**: Mae trafodaethau masnach cyfredol yn Sefydliad Masnach y Byd ynghylch rhyddfrydoli marchnadoedd yn debygol o ddylanwadu ar y trafodaethau ar ddiwygio'r Polisi ar ôl 2013. Yn ogystal, disgwylir y bydd marchnadoedd a phrisiau bwyd yn dod yn fwy ansicr wrth i globaleiddio pellach effeithio ar amaethyddiaeth a chynnyrch amaethyddol a gall hyn effeithio ar y trafodaethau.
- **Ailwladoli neu fframwaith y Gymu**ned?: Er bod cytundeb cyffredinol bod dal angen polisi ar lefel y Gymuned Ewropeaidd ym maes amaethyddiaeth a datblygu gwledig, mae dadlau ynghylch pa elfennau o'r polisi y dylid eu hariannu gan y Gymuned a pha elfennau y dylid ymdrin â hwy ar lefel yr aelod-wladwriaeth.

## 4. Beth yw barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am ddiwygio'r Polisi?

**Nid yw Llywodraeth Cymru** wedi **datgan safbwynt** ar ddiwygio'r Polisi ar ôl 2013 ond mae wedi cyfeirio at effeithiau tebygol unrhyw ddiwygio mewn dogfennau a datganiadau polisi perthnasol. Mae ***Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn*****,** sef strategaeth ffermio Llywodraeth Cymru, yn datgan:

> Yn dilyn y diwygiadau yn 2003, cafwyd mwy o hwb tuag at gymorth datblygu gwledig yn hytrach na thaliadau uniongyrchol i ffermwyr. Mae'n debyg y bydd y newid hwn yn cyflymu ar ôl 2013. Bydd yn rhaid i ffermwyr Cymru addasu eu systemau cynhyrchu i wir sefyllfa'r farchnad gan elwa yr un pryd o'r cyfleoedd a gynigir drwy fesurau datblygu gwledig.[6]

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cyflwyno cynllun amaeth-amgylcheddol newydd o dan Colofn Dau o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Bydd **cynllun newydd Glastir** yn weithredol o 2012 ymlaen, a'r bwriad yw y bydd y cynllun yn gysylltiedig â'r 'agenda heriau' a amlygwyd fel rhan o Archwiliad Iechyd 2008.

Mae **Llywodraeth y DU** wedi cyhoeddi ***Vision for the Common Agricultural Policy*** sy'n datgan y diwygiadau a'r newidiadau y byddai'n hoffi eu gweld yn ystod y deng i bymtheng mlynedd nesaf.[7] Mae'r weledigaeth yn datgan bod y PAC **ar ei ffurf bresennol yn aneffeithlon** ac yn llai tebygol o allu ymateb i heriau globaleiddio. Mae'n galw am gysylltu amaeth â pholisi cystadleugarwch yr Undeb Ewropeaidd, am **ostyngiad sylweddol yng ngweithgareddau Colofn Un,** am lai o ymyrraeth yn y farchnad ac am ostyngiad sylweddol yng nghyllideb gyffredinol y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Yn hytrach, byddai Llywodraeth y DU yn dymuno gweld PAC sy'n canolbwyntio ar fesurau Colofn Dau sy'n rhoi pwyslais ar

---

[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru, ***Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu dyfodol cadarn Atodiad 1: Heriau'r Diwydiant***, mis Mai 2009 [fel ar 10 Chwefror 2010]

[7] DEFRA a Thrysorlys Ei Mawrhydi, ***A Vision for the Common Agricultural Policy***, mis Rhagfyr 2005 [fel ar 10 Chwefror 2010]

yr amgylchedd a hyrwyddo datblygu gwledig cynaliadwy.

## 5. Pa safbwyntiau eraill sy'n dod i'r amlwg?

Yn ogystal â safbwynt Llywodraeth y DU, mae safbwyntiau carfannau eraill o aelod-wladwriaethau yn dechrau dod i'r amlwg. Y **garfan fwyaf** yw'r **G22** sy'n cynnwys 22 o aelod-wladwriaethau sy'n dadlau dros **gynnal cyllideb bresennol y PAC** ac am bolisi cymunedol cryf ar ôl 2013. Daeth y garfan hon i'r amlwg yn dilyn yr argyfwng diweddar yn y diwydiant llaeth. Daeth yr aelod-wladwriaethau at ei gilydd er mwyn lobïo'r Comisiwn i ymyrryd ac i roi cymorth i'r Sector Llaeth Ewropeaidd yn dilyn cyfnod hir o brisiau llaeth isel. Mae'r G22 eisoes wedi cyfarfod er mwyn datblygu safbwynt cyffredin ynghylch y diwygiadau ar ôl 2013. **Nid yw'r DU yn rhan o'r garfan hon**.

Mae **ail garfan gref** wedi dod i'r amlwg sy'n cynnwys **naw aelod-wladwriaeth newydd.** Yn ogystal â galw am PAC cryf, maent hefyd yn galw am system symlach a thecach o gymorthdaliadau a chymorth incwm i ffermwyr. Byddai'r garfan hon yn dymuno gweld diwedd i'r meini prawf hanesyddol sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo cymorth uniongyrchol yn ogystal â mabwysiadu dull cyffredin ar draws yr holl aelod-wladwriaethau.

## 6. Beth yw amserlen y trafodaethau ar gyfer Diwygio'r PAC ar ôl 2013?

Amlinellir isod yr amserlen arfaethedig ar gyfer trafod diwygio'r PAC ar ôl 2013:

- **Chwefror 2010:** Ethol Comisiwn newydd 9 Chwefror. Dogfen drafod Llywyddiaeth Sbaen o'r Cyngor Ewropeaidd ar ddyfodol elfennau'r PAC sy'n ymwneud â'r farchnad.
- **Mawrth 2010:** Pleidlais gan Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Senedd Ewrop ar ei adroddiad ei hun ar amaethyddiaeth yn yr UE a newid hinsawdd.
- **Mai-Mehefin 2010:** Llywyddiaeth Sbaen o'r Cyngor Ewropeaidd i gynnal trafodaethau anffurfiol ar ddiwygio'r PAC ar ôl 2013.
- **Hydref 2010:** Ymgynghori ar ddatganiad cychwynnol y Comisiwn ynghylch diwygio'r PAC.
- **Haf 2011:** Cyhoeddi cynigion deddfwriaethol gan y Comisiwn i ddiwygio'r PAC.
- **Hydref 2011-**
  **Rhagfyr 2012:** Trafodaethau ar y cynigion deddfwriaethol rhwng y Cyngor, y Senedd a'r Comisiwn, gyda'r bwriad o ddod i gytundeb erbyn diwedd 2012.

## 7. Beth yw swyddogaeth y sefydliadau Ewropeaidd?

- **Y Comisiwn:** Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am ddrafftio'r **datganiad cychwynnol** ac am gynnal ymgynghoriad ar y datganiad hwnnw. Bydd y Comisiwn hefyd yn gyfrifol am **ddrafftio cynigion deddfwriaethol** ac yn chwarae rôl gymodol mewn trafodaethau.
- **Cyngor yr Undeb Ewropeaidd:** Arweinir y trafodaethau ymhlith yr aelod-

wladwriaethau ar y cynigion ar gyfer diwygio'r PAC ar ôl 2013 gan y **gwledydd a fydd yn llywyddu'r Cyngor**. Y gwledydd a fydd yn llywyddu yn ystod y cyfnod o ddatblygu a chytuno ar y cynigion i ddiwygio'r PAC ar ôl 2013 fydd: Sbaen, Gwlad Belg, Hwngari a Gwlad Pwyl. Bydd mwyafrif y trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol rhwng Gweinidogion amaethyddiaeth yn cael eu cynnal gan y **Cyngor Amaethyddiaeth a Physgodfeydd.**

- **Senedd Ewrop:** Yn dilyn cadarnhau Cytuniad Lisbon, bydd gan y **Senedd statws cyfartal â'r Cyngor** yn y trafodaethau ar ddiwygio. **Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** y Senedd fydd yn arwain ar safbwynt Senedd Ewrop.
- **Y weithdrefn gydbenderfynu:** Bydd unrhyw gynigion deddfwriaethol ynghylch diwygio'r PAC yn destun gweithdrefn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd lle bydd rhaid i'r **Cyngor a'r Senedd gytuno ar safbwynt cyffredin**. Bydd y Comisiwn yn anfon y cynigion deddfwriaethol i'r Cyngor a'r Senedd, a fydd yn cynnal dau ddarlleniad olynol yr un. Os na allant ddod i gytundeb ar ôl dau ddarlleniad, bydd **Pwyllgor Cymodi** yn cael ei sefydlu gyda nifer gyfartal o gynrychiolwyr o'r naill sefydliad a'r llall. Ar ôl i'r Pwyllgor ddod i gytundeb, anfonir y testun yn ôl i'r Senedd a'r Cyngor am y trydydd darlleniad er mwyn ei fabwysiadu'n destun deddfwriaethol.

## 8. Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am ddiwygio'r PAC ar ôl 2013, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@wales.gov.uk**), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ar y lincs isod:

- Gwefan y Comisiwn Ewropeaidd, **y Polisi Amaethyddol Cyffredin ar ôl 2013**
- Gwefan Llywodraeth Cymru, **y Polisi Amaethyddol Cyffredin**
- Senedd Ewrop, gwefan **y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
- Gwefan **Cyngor yr Undeb Ewropeaidd**
- Gwefan **Cyllideb yr UE**
- Gwefan DEFRA, **Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin**
- Gwefan y Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewropeaidd **PAC 2020: Trafod dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin**

**MRS 10/0373 Nia Seaton**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF991NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gov.uk**